**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mawrth 2015**

## ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r aelodau am effaith y gostyngiad yn yr arian Grant Lleihau Risg Cymunedol ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, a cheisio cymeradwyaeth i leihau'r targed blynyddol ar gyfer cynnal archwiliadau.

## Cefndir

2. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi penderfynu, yn dilyn Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn 2007 (adolygwyd yn 2009), i gael targed blynyddol i gynnal 30,000 o archwiliadau y flwyddyn. Y bwriad y byddai pob cartref yng Ngogledd Cymru yn cael archwiliad o fewn cyfnod o ddeng mlynedd.

3. Mae GTAGC wedi cynnal 218,151 o archwiliadau yn llwyddiannus ers 2007. Cefnogwyd y fenter drwy arian grant Lleihau Risg Cymunedol gan Lywodraeth Cymru, a chafodd hwnnw ei ddefnyddio i gaffael ymyriadau ar gyfer cyflenwi diogelwch yn y cartref. Yn 2014-15 roedd cyfran GTAGC o'r grant hwn yn £460,000.

4. Mae'r grant hwn wedi ariannu ymyriadau arbenigol megis unedau taenellu symudol, larymau mwg, a systemau hysbysu yn enwedig ar gyfer pobl trwm eu clyw. Mae hefyd wedi talu am gyfarpar ar gyfer diogelu cartrefi penodol rhag y bygythiad o ymosodiad llosgi bwriadol, ynghyd â larymau mwg pwynt sengl.

5. Hefyd, ynghyd â chydweithwyr o'r GTAau yng Nghymru, mae GTAGC wedi elwa ar arian grant refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect y Ffenics, y prosiect Chwyldro, y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol a chymorth y trydydd sector ac asiantaethau gwirfoddol.

6. Yn Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cynnig lleihau swm yr arian tuag at y grant Lleihau Risg Cymunedol yn 2015-16, a hynny 50% ar gyfer cyfalaf a 52% ar gyfer refeniw. Cadarnhawyd hyn pan gyhoeddwyd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn Rhagfyr 2014.

**Gwybodaeth**

7. Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo yn y tri GTA yng Nghymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ymdrin â'r gostyngiadau yn y cyllid cyfalaf a'r cyllid refeniw.

8. Bydd yr Aelodau'n cofio eu bod, pan gawsant wybod gyntaf am y gostyngiadau i'r arian grant Lleihau Risg Cymunedol, wedi gofyn am roi blaenoriaeth yn y lle cyntaf i gadw ymyriadau ar gyfer pobl ifanc drwy brosiect y Ffenics.

9. Un o'r newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud o ganlyniad i'r gostyngiad yn yr arian grant Lleihau Risg Cymunedol yw na fyddwn mwyach yn gallu talu'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill i gynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar ran GTAGC. Mae hyn yn cynnwys contract i ddarparu archwiliadau i bawb sy'n defnyddio ocsigen gartref. Bydd hyn yn arwain at ostwng nifer yr archwiliadau y gellir eu cynnal ledled y Gogledd mewn blwyddyn.

10. Yn 2014-15, cafodd dros 30% o'r arian cyfalaf ei ddefnyddio i ddarparu ymyriadau arbenigol ar gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Ar y sail hwn, ac er mwyn atal y gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y bobl hyn, disgwylir y bydd angen dros 60% o'r swm is o gyfalaf ar gyfer darparu ymyriadau arbenigol. Dim ond tua 18,000 o larymau mwg pwynt sengl y bydd y gweddill yn ddigon i'w caffael. Oherwydd y ffactorau hyn, mae'n afrealistig disgwyl i GTAGC gynnal mwy nag 20,000 o archwiliadau y flwyddyn.

11. Er y bydd nifer yr archwiliadau'n is, gall yr Aelodau fod yn dawel eu meddwl y bydd y ffocws yn parhau ar ddarparu archwiliadau i'r bobl sydd mewn mwyaf o berygl o farw mewn tân damweiniol yn y cartref. Bydd hyn yn cynnwys y bobl hynny sydd wedi eu nodi yn rhai â nodweddion sy'n golygu bod ganddynt risg penodol.

**Argymhellion**

12. Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r effeithiau a nodwyd mewn perthynas â gostwng yr arian grant Lleihau Risg Cymunedol, o ran cyfalaf a refeniw;
(ii) cytuno ar darged diwygiedig, sef cynnal 20,000 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref bob blwyddyn.